Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Newidiadau i BBC News a'r fframwaith rheoleiddio perthnasol

## Cefndir

Ym mis Mai eleni fe gyhoeddodd y BBC ei strategaeth ddigidol yn gyntaf. Roedd hyn yn cynnwys "gwneud arbedion mewn newyddion a ddarlledir, gan ail-fuddsoddi hynny mewn newyddion fideo a digidol".[1] Mae'r nodyn hwn yn amlinellu rôl Ofcom o ran y newidiadau y mae'r BBC wedi eu cynnig i'w gwasanaethau newyddion - mewn perthynas â sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei chylch gwaith fel y nodir yn y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus ac yn ystyried effaith bosib y newid ar gystadleuaeth. Mae'n bwysig nodi mai materion i Fwrdd y BBC yw penderfyniadau golygyddol ac amserlennu.

## Yr hyn rydym yn ei ddeall am gynigion y BBC

Mae'r BBC wedi cyhoeddi ei bwriad i gyfuno BBC News yn y DU a World News i greu un sianel deledu o'r enw BBC News.[2] Disgwylir y bydd hyn yn digwydd ym mis Ebrill 2023 ac y bydd yn darlledu ar draws y byd - o Lundain yn ystod oriau dydd y DU, yna Singapore a Washington DC. Nid yw'r BBC wedi cyhoeddi cynigion manwl ar gyfer y sianel eto, ond rydym ar ddeall y bydd yn rhoi sylw i newyddion sy'n torri'n fyd-eang a, phan fo'n berthnasol, ffrwd ddomestig yn unig o ddigwyddiadau newyddion sy'n benodol i'r DU.

## Perfformiad y BBC

Mae Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC, fel y nodir yn ei Siarter, yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddarparu newyddion cywir a diduedd o ansawdd uchel i feithrin dealltwriaeth pobl o bob rhan o'r DU ac o'r byd ehangach. Mae'n ofynnol iddi gynnig ystod a manylder o ddadansoddiad a chynnwys er mwyn i bob cynulleidfa ymgysylltu'n llawn â materion o bwys ar sail leol, rhanbarthol, cenedlaethol, y DU a byd-eang a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion gweithredol a gwybodus.

Mae Ofcom yn gosod Trwydded Weithredu gyda gofynion sy'n sicrhau bod cynulleidfaoedd ar draws y DU yn cael eu gwasanaethu'n dda gan y BBC a bod y BBC yn cyflawni'r Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Rydym hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar y BBC sy'n asesu ei pherfformiad o ran cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus. O fewn yr adroddiad hwn, rydym yn amlygu meysydd lle y credwn fod angen i'r BBC wella agweddau penodol ar ei pherfformiad er mwyn gwasanaethu cynulleidfaoedd y DU yn well.

Ym mis Mehefin eleni bu i ni lansio ymgynghoriad ar sut y dylem addasu Trwydded Weithredu'r BBC i ganiatáu iddi ymgymryd â'r camau trawsnewid angenrheidiol, ac ar yr un pryd parhau i ddarparu cynnwys nodedig o ansawdd uchel ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU.

Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar sut rydym yn dwyn y BBC i gyfrif ar ran cynulleidfaoedd, gan gynnwys sut rydym yn sicrhau bod y BBC yn fwy tryloyw ynglŷn â'i chynlluniau a'i pherfformiad. Rydym yn bwriadu cadw amrywiaeth o gwotâu i sicrhau darpariaeth newyddion y BBC ochr yn ochr ag amcan newydd iddi ddarparu ehangder o storïau lleol, rhanbarthol,

[1] Canolfan gyfryngau'r BBC, *Plan to deliver a digital-first BBC*, 26 Mai 2022.
[2] Tim Davie, Araith *A digital-first BBC*, 26 Mai 2022.

cenedlaethol a rhyngwladol i gynulleidfaoedd yn y DU ar draws ei gwasanaethau, gan gynnwys ar sianel BBC News.

Nid ydym eto wedi gweld cynlluniau cyflwyno manwl ar gyfer y sianel gyfun a sut y bydd y BBC yn parhau i wasanaethu cynulleidfaoedd y DU a chyflwyno ei chylch gwaith. Yn benodol, rydym yn disgwyl i'r BBC fod yn glir ynglŷn â sut mae'n bwriadu sicrhau y bydd BBC News yn parhau i ddarparu newyddion o ansawdd uchel yn y DU. Os bydd gennym bryderon, gallwn osod amodau yn y Drwydded Weithredu yn ymwneud yn benodol â BBC News a sut mae'n rhaid iddi wasanaethu cynulleidfaoedd yn y DU.

## Rheoleiddio cystadlu

Pan fydd y BBC yn gwneud newidiadau i'w gwasanaethau cyhoeddus mae angen iddi ystyried a yw'r newid arfaethedig yn "faterol" h.y. a yw lansio Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU neu newid Gwasanaeth Cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli yn y DU yn cael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.[3] Os yw'r BBC o'r farn bod newid yn faterol, yna mae'n rhaid iddi gynnal Prawf Budd y Cyhoedd er mwyn penderfynu a yw gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth.[4] Wedi hynny, mae Ofcom yn ymgymryd ag asesiad cystadleuaeth o newid arfaethedig y BBC.[5]

Yn y rhestr o Wasanaethau Cyhoeddus y DU y mae'r BBC yn eu cynnal, disgrifir BBC News fel: “sianel newyddion treigl sy'n darparu newyddion, dadansoddiad a rhaglenni gwybodaeth eraill.”[6] Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth bresennol o'r newid mae'r BBC yn bwriadu ei wneud, ymddengys fod hyn yn newid golygyddol i wasanaeth sy'n bodoli eisoes yn hytrach na chreu Gwasanaeth Cyhoeddus DU newydd. Ar hyn o bryd nid oes gennym reswm dros ddisgwyl y byddai'r fath newid i BBC News yn cael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth yn y DU. Nid yw'r BBC eto wedi darparu, ac nid ydym wedi gofyn am asesiad materoldeb ar y cynnig hwn.

Mae'r BBC hefyd yn ystyried a allai unrhyw newidiadau i'w gweithgareddau masnachol aflunio'r farchnad neu greu mantais annheg o ganlyniad i'w perthynas gyda Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC.[7] O berthnasedd i'r bwriad i gyfuno BBC News a World News yw'r ffaith y gwnaeth y BBC newidiadau i'w is-gwmni masnachol Global News Ltd (GNL) yn 2021. Daeth rheolaeth olygyddol a gweithrediad y sianel World News o dan weithrediad newyddion y gwasanaeth cyhoeddus. Cyfunwyd gweddill gweithgareddau GNL ag is-gwmni masnachol BBC Studios, sy'n darparu hysbysebu a dosbarthu rhyngwladol ar gyfer World News. Wrth ymgymryd â'r gweithgareddau hyn dros World News, mae BBC Studios yn cadw ei gostau a chomisiwn, ac mae gweddill y refeniw hwn yn cael ei ddychwelyd i Wasanaeth Cyhoeddus y BBC. Fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC,[8] bu i ni adolygu asesiad y BBC o'r newid hwn gan gytuno nad oedd hyn yn newid materol i'w gweithgareddau masnachol.

---

[3] Cytundeb Fframwaith y BBC, cymal 7(7).
[4] Cytundeb Fframwaith y BBC, cymal 8.
[5] Cytundeb Fframwaith y BBC, cymalau 9 a 10. Os yw Ofcom yn anghytuno â'r BBC ynghylch a yw newid yn faterol ai beidio, gall gyfarwyddo'r BBC i gynnal Prawf Budd y Cyhoedd.
[6] Rhestr o Wasanaethau Cyhoeddus y DU, 1(g).
[7] Cytundeb Fframwaith y BBC, cymal 23.
[8] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020/21, tudalen 74.

## Y camau nesaf

Mae disgwyl i newid y BBC gael ei lansio ym mis Ebrill 2023. Mae gennym gysylltiad rheolaidd â'r BBC ar bob agwedd o'i gweithrediadau a byddwn yn parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o fanylder y cynigion hyn. Os bydd unrhyw faterion o bryder yn codi byddwn yn gweithio gyda'r BBC i roi sylw iddynt ac, os bydd angen, cymryd camau o dan naill ai ein pwerau perfformiad neu gystadleuaeth i sicrhau bod y BBC yn parhau i gystadlu'n deg a chyflwyno ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU.